Y SENEDD

Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd am 14.00 ar 12 MEHEFIN 2019, yn y Brif Neuadd, Adeilad Gwleidyddiaeth Ryngwladol.

Aelodau â phleidlais: Yr Athro Elizabeth Treasure, Is-Ganghellor; Yr Athro Neil Glasser, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Gwyddorau'r Ddaear a Bywyd); Dr Anwen Jones, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran y Celfyddydau a'r Gwyddorau Cymdeithasol); Yr Athro Qiang Shen, Dirprwy Is-Ganghellor (Cyfadran Busnes a'r Gwyddorau Ffisegol); Yr Athro Chris Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi); Yr Athro Tim Woods, Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyrwyr); Dr Gordon Allison; Dr Hazel Davey; Dr Gwion Evans; Dr Sarah Higgins; Ms Anna Wyn Jones, Llywydd UMCA; Dr Cerys Jones, Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol; Dr Ffion Jones; Mr John Morgan; Dr Ola Olusanya; Dr Maria Plotnikova; Yr Athro Eleri Pryse; Yr Athro Phillipp Schofield; Yr Athro Malcolm Thomas; Dr Victoria Wright; Mr Bruce Wight, Llywydd UMAber; a'r Athro Reyer Zwiggelaar, Pennaeth Ysgol y Graddedigion.

Aelodau heb bleidlais: Yr Athro Simon Cox; Dr Sarah Davies; Yr Athro Nigel Holt (o gofnod 53); a Dr Thomas Jansen.

Yn gweinyddu: Mrs Jean Jones, Pennaeth Swyddfa'r Is-Ganghellor; Mr Geraint Pugh, Ysgrifennydd y Brifysgol; Ms Emma Williams, Cofrestrydd Academaidd; a Dr Rhodri Llwyd Morgan, Cyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol). (tan gofnod 56);

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth Dr Guy Baron; Yr Athro Richard Beardsworth; Mr Tim Davies; Yr Athro Andrew Evans; Mr Nigel Hardy; Ms Megan Hatfield, Swyddog Materion Academaidd UMAber; Ms Louise Jagger; Dr Louise Marshall; Dr Anoush Simon; a Dr Cathryn Charnell-White.

46. MATERION A GODWYD GAN Y CADEIRYDD

1. Cydymdeimlad

   Mynegwyd cydymdeimlad yn dilyn marw'r canlynol:

   1. Patrick Bolster, myfyriwr ail flwyddyn yn Athrofa'r Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig;

   2. Yr Athro Neville Greaves, Athro Ymchwil yn yr Adran Ffiseg;

   3. Y Darlithydd Emeritws Dr Eric G Hall, gynt o'r Ysgol Addysg;

   4. Yr Athro Noel Lloyd, cyn Is-Ganghellor;

   5. Phoebe Williams, myfyrwraig ail flwyddyn yn Yr Ysgol Gelf.

2. Staff Uwch

   1. Yn gynharach yn yr wythnos, rhoddodd yr Athro Chris Thomas wybod yn ffurfiol i'r Is-Ganghellor ei fod yn bwriadu ymddiswyddo o swydd Dirprwy Is-Ganghellor Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi y Brifysgol. Daw hyn yn sgil ei benodi'n Athro Ymchwil Nodedig ym Mhrifysgol Lincoln, swydd y bydd yn cychwyn ynddi ddechrau mis Hydref. Byddai'r drefn o benodi olynydd iddo'n dechrau'n fuan.

2. Byddai Esther Prydderch yn rhoi'r gorau i swydd Pennaeth Cyfathrebu a Materion Cyhoeddus ar ddiwedd y mis, ac yn dechrau ar swydd ran-amser newydd yn hyrwyddo gweithgaredd ymchwil yn y sefydliad. Roedd trefniadau dros-dro wedi'u gwneud tan y penodir Pennaeth newydd i'r tîm cyfathrebu.

47. GWRTHDARO BUDDIANNAU

Ni chafwyd datganiad ynglŷn â gwrthdaro buddiannau yng nghyswllt y materion i'w trafod yn ystod y cyfarfod.

48. COFNODION Y CYFARFODYDD BLAENOROL

DERBYNIWYD

Cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 27 Mawrth, ac 20 Mai 2019 (SEN1819-064).

PENDERFYNWYD

Cadarnhau bod y cofnodion yn gywir.

49. MATERION YN CODI O'R COFNODION

DERBYNIWYD

Cofnodydd yn nodi'r cynnydd a wnaed wrth symud yn eu blaen y penderfyniadau a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt yng nghyfarfod diweddaraf y Senedd, ac unrhyw gamau na chawsant eu cyflawni o gyfarfodydd blaenorol (SEN1819-065).

NODWYD

1. Strategaeth Ymchwil (cofnod 71, cyfarfod dyddiedig 14 Mehefin 2017)

   Roedd y Dirprwy Is-Ganghellor (Ymchwil, Trosglwyddo Gwybodaeth ac Arloesi) yn paratoi fersiwn nesaf drafft y Strategaeth Ymchwil ar gyfer yr Is-Ganghellor cyn iddo adael y Brifysgol. Byddai'r fersiwn hon wedi'i seilio ar y fersiwn a welwyd yn flaenorol gan y Senedd. Ond, byddai'r drafft terfynol yn dod i'w gymeradwyo yn ystod cylch cyfarfodydd yr hydref, ar ôl i'r Dirprwy Is-Ganghellor â chyfrifoldeb am ymchwil ddechrau yn y swydd ac adolygu'r Strategaeth arfaethedig.

2. FFRHY 2021: Cod Ymarfer (cofnod 45.6)

   Galwyd eto am unigolion i wasanaethu ar y Grŵp Ymgynghorol Arbenigol, er na chafwyd unwaith eto lawer o ymateb. Cytunwyd ar gyfansoddiad y Grŵp mewn ymgynghoriad â'r Is-Ganghellor.

3. Y diweddariadau eraill a ddarparwyd yn y cofnodydd penderfyniadau.

50. PENDERFYNIADAU A WNAED RHWNG CYFARFODYDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol (SEN1819-066).

NODWYD

Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, cafodd un mater ei gymeradwyo gan y Cadeirydd, yr Is-Ganghellor, ar ran y Senedd, sef: cadarnhau'n ffurfiol apêl myfyriwr yn erbyn ei hanfon o'r Brifysgol yn dilyn derbyn tystiolaeth newydd.

51. GOHEBIAETH

Nid oedd Ysgrifennydd y Brifysgol wedi derbyn gohebiaeth nad oedd eisoes wedi'i ddwyn i sylw'r aelodau.

52. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

DERBYNIWYD

Adroddiad gan yr Is-Ganghellor (SEN1819-067).

NODWYD

1. Roedd tair prif adran i'r adroddiad: adroddiad am uchafbwyntiau; adroddiad cynllunio a denu myfyrwyr; ac adroddiad ynglŷn â chyfathrebiadau.

2. Sicrhawyd yr aelodau na fyddai gan y cynllun busnes a oedd yn cael ei ystyried ar hyn o bryd yn achos IBERS unrhyw oblygiadau yng nghyswllt y cynllun i gynnig rhaglen filfeddygaeth ar y cyd â'r Coleg Milfeddygaeth Brenhinol. Byddai'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) yn ysgrifennu'n ffurfiol at y Coleg Milfeddygaeth i'w sicrhau o hynny.

53. STRATEGAETH DYSGU AC ADDYSGU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick, yn ymgorffori drafft y Strategaeth Dysgu ac Addysgu (SEN1819-068).

NODWYD

1. Roedd drafft y Strategaeth yn cynnwys nodau ac amcanion y gellid eu rheoli'n ofalus, gan ganolbwyntio ar anghenion cyfredol y sefydliad trwy gyfnod o drawsnewid sylweddol. Byddai agweddau ar y Strategaeth arfaethedig hefyd yn tywys datblygiad Strategaethau galluogi eraill y Brifysgol, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig â datblygu'r ystadau.

2. Trafododd yr aelodau gynnwys y Strategaeth ddrafft a'r Cynllun Gweithredu cysylltiedig yn fanwl - yn enwedig y bwriad i gynyddu 'dysgu gweithredol' a'r ffordd y gellid cyflawni hyn yn ymarferol. Pwysleisiwyd er bod y Strategaeth wedi'i chynllunio i gwmpasu cyfnod tair blynedd, bod y cyfnod gweithredu angenrheidiol yn golygu y byddai effaith y Strategaeth i'w theimlo dros gyfnod hwy.

3. Wrth groesawu'r Strategaeth a'r Cynllun Gweithredu arfaethedig, pwysleisiodd yr aelodau'r angen i sicrhau bod y prosesau cyfredol i fonitro perfformiad adrannau a chynnydd myfyrwyr yn cael eu hadolygu er mwyn sicrhau eu bod yn dal yn berthnasol ac yn cyd-daro â'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu newydd.

PENDERFYNWYD

4. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Strategaeth Dysgu ac Addysgu newydd, yn amodol ar ymgynghori terfynol â chydweithwyr academaidd mewn gweithdai ar 21 Mehefin 2019, a derbyn adborth gan arholwyr allanol y Brifysgol (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).

54. STRATEGAETH Y GYMRAEG A DIWYLLIANT CYMRU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol, yn ymgorffori drafft Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru (SEN1819-069).

NODWYD

1. Byddai'r is-strategaeth ddrafft yn ategu'r Strategaeth sefydliadol gyffredinol ar gyfer 2018-23, ac yn dwyn ynghyd yr amcanion a amlinellir yng Nghynllun Academaidd Cyfrwng Cymraeg y sefydliad, Cynllun Strategol Integredig y Gymraeg, a'r Strategaeth Dwyieithrwydd.

2. Byddai'r is-Strategaeth newydd yn rhoi'r Brifysgol mewn sefyllfa i gyflwyno cynllun cydlynol a fyddai'n mynd â'r Brifysgol yn ei blaen i gyflawni ei chenhadaeth ddwyieithog, ac yn cydymffurfio â'r Safonau Iaith sy'n berthnasol i'r sefydliad.

PENDERFYNWYD

3. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo Strategaeth y Gymraeg a Diwylliant Cymru (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

55. POLISI DEFNYDD MEWNOL O'R GYMRAEG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gymraeg a Diwylliant Cymru, a Chysylltiadau Allanol, yn ymgorffori drafft Polisi Defnydd Mewnol o'r Gymraeg (SEN1819-073).

NODWYD

1. Yn ôl telerau Safon y Gymraeg 105, rhaid i'r Brifysgol fabwysiadu polisi ynglŷn â defnydd mewnol o'r Gymraeg. Roedd y Polisi drafft felly'n defnyddio ymrwymiadau sydd eisoes yn eu lle wedi'u seilio ar Safonau eraill y Gymraeg, a darpariaethau sydd i'w gweld yng Nghynllun Iaith blaenorol y Brifysgol.

2. Ymgynghorwyd â nifer o gyrff mewnol eisoes wrth ddatblygu'r Polisi drafft, gan gynnwys Grŵp Gweithredol y Gymraeg, Cangen Prifysgol Aberystwyth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, a'r Undebau Llafur.

PENDERFYNWYD

3. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo drafft y Polisi, yn amodol ar fân newidiadau i sicrhau cysondeb yn y defnydd o enwau pwyllgorau (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

56. ADRODDIAD BLYNYDDOL UNDEB MYFYRWYR ABER A SIARTER Y MYFYRWYR

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick, yn ymgorffori Cyflwyniad Blynyddol Undeb Myfyrwyr Prifysgol Aberystwyth (UMAber) am 2018-19 a diwygiadau a gynigir i Siarter y Myfyrwyr (SEN1819-070).

NODWYD

1. Ar 22 Mai 2019, derbyniodd y Bwrdd Academaidd Gyflwyniad Blynyddol UMAber am 2018-19, a ddrafftiwyd gan Swyddog Materion Academaidd UMAber. Cyflwynwyd copi i'r Senedd er gwybodaeth.

2. Ar 04 Mehefin 2019, roedd y Cyngor Cyllido wedi argraffu cyfarwyddiadau diwygiedig ynglŷn â Siarteri Myfyrwyr, a'r disgwyliad oedd y byddai'r gofynion newydd yn cael eu hadlewyrchu yn y Siarteri Myfyrwyr y cytunir arnynt am 2019-20. Roedd y gofynion newydd yn cynnwys ymrwymiadau ychwanegol ar ran y Brifysgol yng nghyswllt iechyd

a lles, cydraddoldeb ac amrywiaeth, a rhwymedigaethau cyfreithiol i fyfyrwyr. Roedd addasiadau priodol yn cael eu gwneud felly i Siarter y Myfyrwyr.

3. Roedd yr aelodau'n amau sail resymegol y Cyngor Cyllido am gael gwared â'r amod i adolygu Siarteri Myfyrwyr yn flynyddol ac i ymgynghori â myfyrwyr wrth wneud hynny. Er gwaethaf y canllawiau diwygiedig, byddai'r Brifysgol yn parhau i gynnwys cynrychiolwyr y myfyrwyr yn unrhyw adolygiadau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r newidiadau a gynigiwyd i Siarter y Myfyrwyr, i ddod i rym ar gyfer y flwyddyn academaidd newydd (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

57. CREDYDAU CYFNEWID AR GYFER MEISTR INTEGREDIG

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Braddick (SEN1819-071).

NODWYD

1. Ar 22 Mai 2019, ystyriodd y Bwrdd Academaidd reoliadau ynghylch symud ymlaen i fyfyrwyr Meistr Integredig ar gynlluniau cyfnewid, am fod angen eu gwneud yn glir o ganlyniad i benderfyniad blaenorol a wnaed gan y Senedd yng nghyswllt trosglwyddo marciau o sefydliadau eraill.

2. Ar ôl ystyried opsiynau, argymhellodd aelodau'r Bwrdd Academaidd i'r Senedd, os oedd marciau ar gael o un semester yn Aberystwyth y byddai cynnydd yn cael ei bennu ar sail y semester hwnnw. Ond, os treuliwyd y flwyddyn gyfan ar gynllun cyfnewid, y byddai cynnydd yn cael ei seilio ar berfformiad y flwyddyn flaenorol, gan roi ystyriaeth i drawsgrifiad marciau'r sefydliad lle treuliwyd y flwyddyn.

3. Ystyriodd yr aelodau'r eglurhad arfaethedig, a holi am y gefnogaeth y byddai ei hangen ar gyfer y myfyrwyr hynny nad oedd efallai wedi gwneud yn ddigon da i symud ymlaen. Cadarnhawyd hefyd y byddai pob penderfyniad ynglŷn â symud ymlaen yn cael ei wneud gan Fwrdd Arholi'r adran berthnasol, fel y byddai myfyrwyr mewn sefyllfa i apelio yn erbyn unrhyw benderfyniad a wnaed trwy'r drefn arferol.

PENDERFYNWYD

4. Cymeradwyo'r eglurhad arfaethedig ar y rheoliadau symud ymlaen i fyfyrwyr Meistr Integredig ar gynlluniau cyfnewid (**GWEITHREDU:** Y Dirprwy Gofrestrydd Kim Bradick).

5. Y dylid adolygu'r rheoliadau diwygiedig ymhen y flwyddyn i sicrhau eu bod yn gweithredu yn ôl y bwriad (**GWEITHREDU:** Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).

58. AROLWG CANOL TYMOR O IS-BWYLLGORAU ACADEMAIDD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan y Dirprwy Gofrestrydd Kim Braddick (SEN1819-072).

NODWYD

1. Cafodd grŵp bach ei gynnull gan y Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr) i adolygu gweithrediad fframwaith newydd yr is-bwyllgorau academaidd yn

ystod 2018–19. Y teimlad cyffredinol oedd bod y fframwaith newydd yn gweithio, ond gwnaed cyfres o argymhellion yn yr adroddiad.

2. Trafododd yr aelodau'r adroddiad a dywedwyd wrthynt fod nifer o'r argymhellion eisoes yn cael eu gwneud. Ond, roedd angen ystyriaeth bellach ynglŷn â'r posibilrwydd o gynnal diwrnod encil ar y cyd i aelodau'r Senedd a'r Bwrdd Academaidd, a byddai hyn yn cael ei drafod ymhellach gan gadeiryddion y ddau gorff dros yr haf (**GWEITHREDU:** Yr Is-Ganghellor; a'r Dirprwy Is-Ganghellor (Dysgu, Addysgu a Phrofiad y Myfyriwr)).

59. COD YMARFER RHYDDID I LEFARU

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori diwygiadau drafft i'r Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru (SEN1819-074).

NODWYD

1. Y tro diwethaf y cafodd Cod Ymarfer cyfredol y Brifysgol ar Ryddid i Lefaru ei ddiwygio oedd mis Mai 2016, a dylid bod wedi ei ddiwygio yn ystod 2018. Ond, oherwydd yr ad-drefnu sylweddol ledled y Brifysgol, penderfynwyd gohirio'r adolygiad.

2. Yn seiliedig ar drafodaethau diweddar yn y sector a chanllawiau sydd newydd eu rhyddhau, roedd diwygiadau'n cael eu cynnig yn awr i God Ymarfer y Brifysgol ar Ryddid i Lefaru. Cafodd nifer o unigolion eu gwahodd eisoes i roi adborth ar y diwygiadau a gynigir, a gofynnir am adborth gan yr Undebau Llafur.

3. Yn gysylltiedig â'r Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru, byddai'r Brifysgol yn darparu hyfforddiant i staff ynglŷn â chydymffurfio â'r Ddyletswydd 'Prevent'. Bydd hwn yn hyfforddiant gorfodol ar ffurf cwrs e-Ddysgu ar Blackboard, a byddai'r Weithrediaeth yn ystyried faint o staff a gyflawnodd y cwrs yn yr hydref.

PENDERFYNWYD

4. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r Cod Ymarfer Rhyddid i Lefaru diwygiedig (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

60. DIWYGIO ORDINHAD

DERBYNIWYD

Adroddiad gan Ysgrifennydd y Brifysgol, yn ymgorffori diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 21 (SEN1819-075).

NODWYD

1. Roedd Pennaeth Rheoli Gwybodaeth, Llyfrgelloedd ac Archifau (iMLA), a'r Cyfarwyddwr Marchnata a Denu Myfyrwyr, wedi cynnig y dylid galw iMLA wrth ei enw blaenorol yn y dyfodol, sef Astudiaethau Gwybodaeth. I wneud hyn bydd angen mân ddiwygiad i Ordinhad 21.

PENDERFYNWYD

2. Argymell y dylai'r Cyngor gymeradwyo'r diwygiadau arfaethedig i Ordinhad 21 (**GWEITHREDU:** Ysgrifennydd y Brifysgol).

61. EITEMAU ER GWYBODAETH

DERBYNIWYD

Derbyniodd aelodau adroddiadau ar y canlynol er gwybodaeth:

1. Adroddiad Blynyddol ar Bartneriaethau Cydweithrediadol (SEN1819-076);

2. Adroddiad Blynyddol Swyddfa'r Dyfarnwr Annibynnol (SEN1819-077);

3. Adroddiad Blynyddol Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (SEN1819-078);

4. Canlyniadau'r etholiadau i'r Senedd (SEN1819-079);

5. Adroddiad o Gangen PA y CCC (SEN1819-80);

6. Grantiau Ymchwil (SEN1819-081); a

7. Crynodeb o'r Gofrestr Risg Corfforaethol (SEN1819-082).

NODWYD

8. Cynnwys yr adroddiadau a gyflwynwyd er gwybodaeth.

62. ADRODDIADAU O IS-BWYLLGORAU

DERBYNIWYD

Adroddiad yn cynnwys y canlynol (SEN1819-083):

1. Y Bwrdd Academaidd (22 Mai 2019);

2. Bwrdd Marchnata a Denu Myfyrwyr (21 Mai 2019);

3. Bwrdd Darpariaeth Gydweithrediadol (23 Mai 2019);

4. Y Bwrdd Ymchwil (20 Mai 2019);

5. Pwyllgor Moeseg Ymchwil y Brifysgol (22 Mai 2019);

6. Y Cyngor (12 Ebrill 2019).

NODWYD

7. Yr adroddiadau a dderbyniwyd o'r pwyllgorau.

63. UNRHYW FATER ARALL

1. <u>Ffarwelio</u>

    1. Hwn fu cyfarfod olaf y Senedd i nifer o'r aelodau a rhai eraill yn bresennol, sef: Dr Gordon Allison; Yr Athro Richard Beardsworth; Yr Athro Paul Brewer; Tim Davies; Louise Jagger; Nigel Hardy; Megan Hatfield; Anna Wyn Jones; Dr Ola Olusanya; Dr Maria Plotnikova; Dr Simon Rodway; Yr Athro Chris Thomas; a Bruce Wight.

    2. Diolchwyd i bob un am eu cyfraniadau i drafodaethau'r Senedd dros y blynyddoedd diweddar.